YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR

# Tymor yr Hydref 2025 – Y Tonnau a'r Goleudy

## Bant â ni i gynllunio!




Trwy ffocysu ar faes dysgu y Dyniaethau ceisiwn greu dinasyddion gwybodus sy'n archwilio'u hamgylchedd a sylwi ar yr hyn sy'n digwydd o'u cwmpas. Gobeithiwn agor llygaid y disgyblion i'r byd lliwgar sydd o'u hamgylch a chynnau ymdeimlad o rhyfeddod am yr ardal leol. Anelwn datblygu dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gofyn cwestiynau'n naturiol er mwyn darganfod mwy am liwiau a'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas. Wrth roi'r profiad o ymweld a'r ardal leol a barc Brynmill ymdrechwn i ddatblygu dysgwyr chwilfrydig ac ymholgar sy'n gwneud arsylwadau ac yn medru eu trafod. Wrth arbrofi ac archwilio gyda amrywiaeth o dechnegau celf cyfoethogwn bywydau dysgwyr gan ddatblygu ei hyder wrth iddynt cael mwynhad drwy fynegiant creadigol.

"I know a song about the rainbow"
Emilia

"Our clothes are colourful"
Raffi

"I've got an apple tree in my garden, some are red and some are green"
Mabel

"Yellow is my favourite colour- banans and chicks are the same colour"
Otto

"The Sky is blue"
Freddie

"But sometimes it's not blue, sometimes it's pink! "
Delyth

"The rainbow has all the colours and it comes after the rain"
Harriet

"Trees are green, can we go to the park to see the trees?"
Arlo

"Colours can change" Elke

"Can we mix paint to make colours?"
Anwen

"I want to make new colours" Finn

"I want to look for colours" Grace

YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor yr Hydref 2025 – Y Tonnau a'r Goleudy

Uned ddysgu y tymor hwn:

## Fy myd bach lliwgar i!

Dyma ein syniadau.



**Iechyd a Lles**

- Mynegi hoffterau a chas bethau
- Dysgu sut i fod yn ddiogel wrth groesi'r ffordd
- Mynegi teimladau
- Adnabod pwy sy'n gofalu amdanon ni ac yn ein cadw'n ddiogel e.e. teulu, ffrindiau, athrawon
- Ymarfer a datblygu sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Bod yn greadigol!
- Archwilio ac ymarfer sgiliau peintio gyda lliwiau amrywiol
- Edrych ar, ac efelychu gwaith arlunydd Mary Lloyd Jones
- Trafod gwaith creadigol ein hun.
- Mwynhau canu caneuon cyfarwydd â rhai newydd
- Defnyddio adnoddau creadigol yn ddiogel
- Archwilio ac arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau, deunyddiau, prosesau, adnoddau ac offer
- Arbrofi gyda lliwiau gwahanol, ymchwilio i beth sy'n digwydd wrth eu cymysgu
- Perfformio o flaen gynulleidfa ar gyfer ein Her Rhigymau.

**Profiadau**

- Ymweliad gan swyddog diogelwch ar y ffordd
- Ymweld a pharc Brynmill

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Archwilio'r amgylchedd, gwneud arsylwadau a mynegi meddyliau am y lliwiau o'n cwmpas
- Ymweld â'r parc a sylwi ar newidiadau'r tymhorau.
- Arsylwi ar bethau gan ddefnyddio sbectol lliw
- Dechrau defnyddio ystod o offer cyfrifiadurol yn ddiogel
- Datblygu sgiliau rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy.
- Dylunio a chreu addurn Nadolig

**Mathemateg a Rhifedd**

- Datblygu ein dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau
- Dosbarthu gwrthrychau a chasglu data
- Ymchwilio i fesurau, siâp a phatrwm
- Datrys problemau syml yn ymarferol

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Chwarae rôl yn 'tŷ bach twt' y dosbarth
- Gwrando ar lawer o straeon a barddoniaeth sy'n ymwneud â'r uned ddysgu
- Dysgu geirfa, a chaneuon sy'n ymwneud a'r uned ddysgu
- Gweithgareddau cyn darllen / ysgrifennu, e.e. clywed seiniau, dysgu am rythm ac odl ac ymarfer symudiadau corff cyfan yn barod i ysgrifennu
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol e.e. cardiau, rhestri, gwahoddiadau, disgrifiadau
- Gweithgareddau Tric a Chlic
- Dysgu rhigymau ar gyfer ein Her Rhigymau.

**Y Dyniaethau**

- Bod yn chwilfrydig a gofyn cwestiynnau am y byd o'n cwmpas.
- Meddwl a thrafod y llefydd sy'n bwysig i ni- ein cynefin.
- Teimlo rhyfeddod am y byd o'n cwmpas.
- Adnabod pam mae lleoedd yn bwysig i ni
- Dysgu am draddodiadau Nadolig a pham fod y Nadolig yn bwysig i Gristnogion